



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Uwchradd Bedwas
Heol Casnewydd
Bedwas
Caerffili
CF83 8BJ**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2013

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11 i 18 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Uwchradd Bedwas, sydd wedi'i lleoli i'r dwyrain o Gaerffili. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Bedwas, Tretomas, Graigrhaca a Machen. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu o 694 adeg yr arolygiad diwethaf i'r nifer bresennol, sef 752.

Mae gan ryw 26% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%, ac mae 41% o ddisgyblion yn byw mewn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn ac mae gan ryw 22% ohonynt angen addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.6%. Mae gan ryw 3% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cymharu â 2.6% ar gyfer Cymru gyfan.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae nifer fach iawn o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2008. Ar ôl i ddirprwy bennaeth yr ysgol ymddeol, penododd yr ysgol ddirprwy bennaeth dros dro ym Medi 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Bedwas yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,771 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yng Nghaerffili yw £4,797 a'r isafswm yw £3,753. Mae Ysgol Uwchradd Bedwas yn y 13eg safle o'r 14 o ysgolion uwchradd yng Nghaerffili o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonal
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonal

Perfformiad presennol

Mae nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- gwelliannau diweddar mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4;
- y wybodaeth a'r ddealltwriaeth gadarn a enillir gan ddisgyblion, sy'n datblygu medrau priodol ym mwyafrif y gwersi;
- lles disgyblion, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb a datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd;
- addysgu effeithiol ym mwyafrif y gwersi; ac
- ethos gofalgar a chynhwysol iawn.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw safonau yng nghyfnod allweddol 4 yn ddigon uchel yn gyson;
- mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd rhwng cyfnodau allweddol;
- mewn gwersi, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent; ac
- ni chaiff lleiafrif o addysgu ei gynllunio'n ddigon da i herio disgyblion yn ddigonol.

Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod arweinyddiaeth wedi bod yn effeithiol wrth wneud gwelliannau diweddar mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4;
- bod blaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar godi safonau wedi cael eu sefydlu ar draws pob maes; a
- bod yr arweinyddiaeth a'r cymorth ar gyfer lles disgyblion yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw effaith cynlluniau gweithredu cytûn wedi sicrhau digon o welliant mewn addysgu, dysgu a deilliannau;
- mae arweinwyr yn gosod targedau sy'n rhy isel i ysgogi gwelliant;
- nid yw mwyafrif yr uwch arweinwyr a'r arweinwyr canol yn monitro yn ddigon cadarn; ac
- nid yw llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigonol am ei pherfformiad.

Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu
- A3 Gwella cysondeb ac ansawdd y marcio
- A4 Cynyddu lefel yr atebolrwydd rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar gyfer perfformiad disgyblion
- A5 Gwella trylwyredd a ffocws gweithgarwch hunanarfarnu
- A6 Datblygu gallu'r corff llywodraethol i weithredu'n effeithiol fel ffrind beirniadol, yn enwedig o ran defnyddio data perfformiad yr ysgol i herio arweinwyr

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn cyd-fynd â disgwyliadau wedi'u modelu. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion dros y tair blynedd diwethaf wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg ar y cyfan. Bu gwelliant nodedig mewn perfformiad yn y pynciau craidd y llynedd, er bod perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn parhau i fod islaw cyfartaledd y teulu. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl o gyfnodau allweddol blaenorol ym mwyafrif y dangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella, ac mae perfformiad yn llawer uwch na disgwyliadau wedi'u modelu. Fodd bynnag, am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn ennill ystod eang o gymwysterau ac yn gwneud cynnydd priodol yn y mwyafrif o bynciau.

Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched ar y cyfan, er bod y gwahaniaeth yn llai na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai nag ydyw mewn ysgolion tebyg, er ei fod ychydig yn fwy na'r gwahaniaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn mewn Saesneg ychydig yn wannach nag ydyw mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn arbennig o wir ar y lefelau uwch ac mewn darllen.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n gymharol dda yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae eu cyrhaeddiad yn uwch na ffigurau'r teulu a'r ffigurau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hyn yn perfformio cystal mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau. Ar y cyfan, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r gyfran sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed islaw ffigurau cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed ac y dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r gyfran hon yn unol â ffigurau lleol a chenedlaethol.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol ym Mlwyddyn 7 heb y medrau darllen sydd eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yng nghyfnod allweddol 3.

Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn, ac maent yn datblygu medrau priodol. Maent yn gwneud cynnydd trwy dasgau a gweithgareddau yn dda ac yn cynhyrchu gwaith o safon dda. Dangosant afael cymwys o gysyniadau pwnc allweddol, ac maent yn cymhwysu eu dealltwriaeth yn dda i sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof gynnwys eu gwaith yn llawn a chywir. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl iawn o'r testunau y maent yn eu hastudio. Maent yn ymateb yn dda iawn i weithgareddau heriol a gallant roi sylwadau craff a dadansoddol ar eu gwaith nhw a gwaith disgyblion eraill. Gallant gynllunio, dylunio a mireinio gwaith yn effeithiol gan weithredu ar yr un pryd yn unol â chynghor i wneud mwy o welliannau. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion yn cymryd rhan yn hynod effeithiol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl. Dangosant lefelau uchel o ddealltwriaeth ac empathi at bobl mewn sefyllfaoedd heriol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw rhai disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Nid yw'r disgyblion hyn yn cwblhau tasgau i'r safon y gallent ei chyflawni ac mae eu dealltwriaeth o'u gwaith yn aml yn gyfyngedig neu'n anghyflawn.

Mae'r rhan fwyaf ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn effeithiol i'w hathro a'u cyfoedion, gan adeiladu ar sylwadau disgyblion eraill mewn trafodaeth grŵp. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae rhai disgyblion yn holi cwestiynau treiddgar i'w hathrawon ac i'w gilydd. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn rhugl na hyderus yn eu gwaith llafar ac nid yw'r disgyblion hyn yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp neu ddsbarth. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau darllen cadarn a gallant ddethol gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mae tua hanner y disgyblion yn arfarnu ac yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn dda, a gallant esbonio eu syniadau a'u rhesymau'n glir. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud nodiadau priodol, ac yn dewis gwybodaeth briodol i lunio casgliadau.

Mae tua hanner y disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o waith ysgrifenedig o ansawdd da a gallant ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn rhai pynciau, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith i safon uchel iawn, ac yn defnyddio iaith greadigol yn effeithiol ar gyfer tasgau ysgrifenedig penodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc yn dda i gymharu ac arfarnu eu gwaith yn gymwys. Gallant ddisgrifio digwyddiadau a phrosesau yn glir. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig nac yn cynhyrchu gwaith o ansawdd amrywiol. At hynny, nid yw tua hanner y disgyblion yn sillafu geiriau allweddol yn gywir ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud camgymeriadau atalnodi sylfaenol, fel defnyddio priflythrennau yn anghywir.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella'n sylweddol er 2008. Yn 2012, roedd deilliannau ar lefel pump a thu hwnt yn uwch na deilliannau ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn Cymraeg.

Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a chânt eu cefnogi'n dda yn yr ysgol. Maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag achosion o fwlio. Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd ac maent

yn cymryd rhan yn dda yn y cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn addas mewn gwneud penderfyniadau trwy gyfarfodydd y cyngor ysgol a blwyddyn, ac arolygon ysgol ac arolygon adrannol. Yn benodol, mae disgyblion wedi dylanwadu ar bolisi'r ysgol ynghylch materion fel gwaith cartref a gwisg ysgol.

Mae presenoldeb wedi bod yn gyson dda ac mae'n cymharu'n ffafriol â lefelau ysgolion tebyg. Mae disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae nifer y diwrnodau a gollir trwy waharddiadau wedi gostwng yn sylweddol.

Mae ymddygiad yn dda iawn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at gyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn barod i ddysgu ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Maent yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac maent yn ymgymryd â phrosiectau gwerth chweil yn y gymuned leol, fel gwaith elusennol a chefnogi'r henoed.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar brofiadau cynradd disgyblion, ac ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, mae'n cynnwys darpariaeth ychwanegol i gefnogi medrau llythrennedd disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff disgyblion ystod eang o opsiynau academaidd a galwedigaethol, er mai prin yw'r disgyblion sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol. Bodlonir addysg y disgyblion mwyaf heriol yng nghyfnod allweddol 4 trwy ddarpariaeth amgen, ond mae gormod o ddisgyblion yn cymryd rhan ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ennill cymwysterau priodol. Yn y sector ôl-16, mae'r ysgol yn elwa ar weithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod eang o opsiynau. Rhoddir llawer o gyfleoedd allgyrsiol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, a gefnogir yn dda.

Mae'r ysgol wedi sefydlu strategaeth glir a chydlynus ar gyfer llythrennedd yn ddiweddar. Hyd yn hyn, bu ffocws craff a chynaliadwy ar wella medrau darllen disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 trwy raglen gynhwysfawr a sefydledig, gan gynnwys rhaglen ar gyfer disgyblion â medrau gwan iawn. Mae hyn eisoes wedi cael effaith fuddiol ar safonau mewn darllen. Caiff data helaeth ar ddarllen ei ddadansoddi a'i ddefnyddio yn effeithiol. Megis dechrau datblygu y mae mentrau pellach i wella medrau darllen a medrau ysgrifennu lefel uwch ac nid ydynt wedi effeithio ar safonau eto.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn gwella o sylfaen isel. Neilltuir amser cynyddol ar ei chyfer yng nghyfnod allweddol 4 ac mae'r niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau lefel 2 yn cynyddu, er eu bod yn fach o hyd ar gyfer y cwrs llawn. Mae darpariaeth addas ar gyfer y dimensiwn Cymreig mewn pynciau a thrwy ddigwyddiadau fel yr eisteddfod.

Mae darpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae wedi dod yn rhan annatod o ethos a bywyd bob dydd yr ysgol, ac fe gaiff y gwaith ei arwain gan grŵp eco brwdfrydig ac effeithiol. Mae cysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd eraill fel Cenia a'r Wcrain yn cyfrannu'n dda at y gwaith hwn.

Addysgu: Digonol

Bron ym mhob un o'r gwersi, mae perthynas dda iawn rhwng athrawon a disgyblion, ac maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae athrawon yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol dda.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer gwaith ac ymddygiad disgyblion. Mae gwersi wedi'u cynllunio'n dda gyda gweithgareddau dychmygus yn adeiladu'n gadarn ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau ar gyflymder da ac maent yn cynnal lefelau uchel o her trwy gydol gwersi. Maent yn cymell ac yn ymgysylltu â phob disgybl yn llwyddiannus. Mae ansawdd y tasgau a gyflwynir yn dda, maent yn gweddu'n dda i alluoedd disgyblion ac yn galluogi iddynt weithio'n annibynnol neu'n effeithiol mewn grwpiau. Mae athrawon yn defnyddio medrau holi da, sy'n archwilio dealltwriaeth ac yn datblygu medrau rhesymu disgyblion. Yn ychwanegol, mae athrawon yn rhoi cyfnod buddiol i ddisgyblion ar gyfer meddwl a thrafod, sy'n datblygu ymatebion llawnach a manylach. Mewn rhai gwersi, mae addysgu yn llwyddiannus iawn. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn hynod effeithiol trwy gyd-destunau ystyrion.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd. Nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel nac yn herio disgyblion yn ddigonol. Hefyd, nid yw cynllunio athrawon yn effeithiol ac mae hyn yn arwain at weithgareddau nad ydynt yn cynnwys amcanion na diben clir. Yn y gwersi hyn, mae cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu dysgu yn gyfyngedig, ac athrawon sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r siarad a'r rhesymu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael eu cynnwys ac nid ydynt bob amser yn dal ati i ganolbwyntio. Mae cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd lefel uwch disgyblion yn wan. Mewn rhai adrannau, mae'r defnydd o daflenni gwaith neu lyfrynau gwaith yn cyfyngu datblygiad medrau ysgrifennu a dealltwriaeth ddyfnach o gynnwys pwnc.

Mae marcio yn gyfoes a rheolaidd, ac mae llawer o athrawon yn dilyn dulliau cyffredin o fewn adrannau. Mae mwyafrif o athrawon yn rhoi sylwadau defnyddiol ar waith disgyblion sy'n rhoi dealltwriaeth i ddisgyblion o'u cynnydd. Mae lleiafrif ohonynt yn rhoi arweiniad clir a phenodol ar gryfderau, gwendidau a thargedau ar gyfer gwella. At ei gilydd, mae ansawdd y marcio yn rhy anghyson, o fewn adrannau a rhyngddynt. Yn benodol, ychydig o ddisgyblion yn unig sy'n ymateb i'r marcio trwy gwblhau gwaith coll neu drwy gywiro camgymeriadau.

Mae systemau addas i fonitro cynnydd disgyblion ac mae adrannau pwnc yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i fynd i'r afael â thanberfformio. Mae'r system ar gyfer cyfnod allweddol 3 wedi cael ei mireinio ymhellach eleni, ond ni chaiff y wybodaeth a gesglir ar gyfer system cyfnod allweddol 4 ei chasglu'n ddigon

rheolaidd. Mae gweithredu dilynol yng nghyfnod allweddol 4 trwy weithgareddau mentora wedi arwain at welliannau ar gyfer grŵp targedig o ddisgyblion.

Mae rhieni o'r farn fod adroddiadau yn addysgiadol, yn enwedig yr adroddiadau cryno a ddarperir deirgwaith y flwyddyn. Mae adroddiadau blynyddol yn cynnwys syniad o gryfderau a gwendidau, ond maent yn amrywio o ran fformat ac ansawdd, ac nid yw targedau ar gyfer gwella yn ddigon penodol i'r pwnc sy'n cael ei astudio.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd gofalgwr a chefnogol iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o agweddau ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae gwasanaethau ac adegau cofrestru yn cynnig cyfleoedd buddiol ar gyfer myfyrio ac yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda llawer o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Mae amrywiaeth eang o asiantaethau, sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol disgyblion, yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Mae anogwyr dysgu a rhaglenni mentora yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion a rhieni ynglŷn â phontio, opsiynau a llwybrau gyrfa.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn benodol, mae'r trefniadau cynhwysol a'r lefel uwch o gymorth sensitif a gofalgwr a ddarperir gan y tîm anghenion dysgu ychwanegol yn helpu disgyblion i integreiddio'n effeithiol ym mywyd yr ysgol. Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau dysgu priodol. Mae athrawon arbenigol a chynorthwyr cymorth yn cynnig cymorth targedig buddiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol systemau priodol i sicrhau bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hysbysu'n dda am addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos gofalgwr a chynhwysol iawn sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, sy'n adlewyrchu arwyddair yr ysgol, sef 'gofalu a chyflawni'. Caiff pob disgybl yr un cyfle i fanteisio ar gwricwlwm yr ysgol a chyfleoedd i lwyddo ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd trefnus a chroesawgar. Mae safon y safle'n dda, ac mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u haddurno'n dda iawn. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ddeniadol iawn, wedi'u cyflwyno'n dda ac yn addysgiadol. Maent yn dathlu cyflawniad disgyblion, yn ennyn eu diddordeb ac yn gwella dysgu.

Mae adnoddau dysgu'n dda ac yn bodloni anghenion disgyblion yn dda. Mae nifer o ystafelloedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol, ac mae gan y rhan fwyaf o adrannau eu cyfrifiaduron eu hunain. Mae'r ysgol yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn briodol i wella dysgu disgyblion.

Mae'r cyfleusterau chwaraeon wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, ac mae eu hansawdd yn addas erbyn hyn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r pennaeth wedi aildrefnu'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ddiweddar ac wedi rhoi trefniadau newydd ar waith, sydd wedi cryfhau'r tîm. Mae dosbarthiad y rolau a'r amser a neilltuir i ymgymryd â'r rolau newydd hyn yn briodol. Mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cefnogi'r pennaeth yn dda, a gyda'i gilydd, maent yn rhannu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae cyfarfodydd rheolaidd a dogfennau yn cyfleu'r weledigaeth hon yn briodol wrth bob aelod o staff. Sefydlwyd blaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar godi safonau ar gyfer gwella ar draws pob maes.

Mae deilliannau cadarnhaol cynnar yn sgil yr aildrefnu yn cynnwys datblygu darpariaeth effeithiol yr ysgol ar gyfer llythrennedd ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, lefel presenoldeb uwch ar gyfer yr ysgol gyfan a lefelau uchel o ymddygiad da.

Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ddealltwriaeth glir o ble mae angen gwneud rhagor o gynnydd. Er bod systemau a strwythurau i gyflawni hyn, nid ydynt yn ddigon cadarn. Ar hyn o bryd, nid yw'r graddau y mae arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau wedi eu datblygu'n llawn.

Mae gan bob uwch arweinydd gyfrifoldebau rheoli llinell perthnasol ar gyfer nifer briodol o adrannau. Cynhelir cyfarfodydd addas rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol bob hanner tymor, ac maent yn canolbwyntio ar arfer ystafell ddosbarth a pherfformiad disgyblion. Er y bu gwelliant mewn lleiafrif o bynciau, nid yw effaith y camau cytûn wedi ysgogi digon o welliant mewn addysgu a dysgu. Nid yw rheolwyr llinell a mwyafrif yr arweinwyr canol yn monitro ansawdd gwersi ac adolygiadau llyfrau yn ddigon trylwyr.

Mae gan lawer o arweinwyr canol ymwybyddiaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella yn eu hadrannau. Maent yn defnyddio data'n dda i gymharu perfformiad yn erbyn cyfartaleddau cenedlaethol, ond nid yw'r gymhariaeth ag ysgolion tebyg yn gynhwysfawr a thrylwyr.

Mae rheolwyr cynnydd yn delio â, ac yn datrys lles disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o effaith ar wella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae rheoli perfformiad wedi'i drefnu'n dda ac fe'i defnyddir yn gyson ar bob lefel ar draws yr ysgol. Mae targedau unigol wedi'u cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol a

bodlonir anghenion hyfforddiant unigol yn briodol trwy raglen effeithiol hyfforddiant mewn swydd. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r deilliannau o dargedau rheoli perfformiad yn ddigon penodol, ac maent yn ymwneud yn bennaf â chwblhau camau gweithredu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol ac mae ganddo ddealltwriaeth gadarn o fwyaf y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn briodol am berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn hyderus wrth ddehongli data perfformiad, ac o ganlyniad, nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfrif digon am ei pherfformiad.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda yn yr ysgol ac mae'n rhan reolaidd o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu calendr clir o ddigwyddiadau i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'r ysgol yn ymdrechu'n helaeth i ddefnyddio tystiolaeth o ffynonellau uniongyrchol. Rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion rannu eu safbwyntiau ar eu profiad o fywyd ysgol. Caiff pob un o'r staff eu hannog i gymryd rhan mewn arfarnu darpariaeth a safonau'r ysgol. Ymgynghorir yn eang â rhieni, ac mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu'n briodol at asesiad yr ysgol ei hun o gynnydd.

Fodd bynnag, mae hunanarfarniad diweddaraf yr ysgol yn rhy hael wrth farnu deilliannau disgyblion, ac nid yw'n ddigon beirniadol mewn manau. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i herio arweinwyr canol ac athrawon dosbarth i gynllunio ar gyfer gwelliant cynaliadwy a bod yn atebol am ansawdd eu gwaith.

Mae'r cynlluniau gwella ar gyfer yr ysgol ac adrannau yn defnyddio canfyddiadau hunanarfarnu mewn ffordd briodol. Yn gyffredinol, mae cynlluniau yn nodi ystod o strategaethau cadarn. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth i gefnogi llythrennedd a'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ac wedi gwella safonau lles disgyblion a'u gallu i ddarllen. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr yn gosod targedau ar gyfer pynciau sy'n aml yn rhy isel i sicrhau gwelliant, ac nid yw llawer ohonynt yn cynnwys ffocws craff ar wella addysgu, dysgu a deilliannau.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth wella lefelau presenoldeb ac yn yr ystafelloedd ar gyfer gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Er bod camau perthnasol wedi cael eu cymryd i rannu arfer orau mewn addysgu a dysgu, nid yw barnau'r ysgol ar effeithiolrwydd y camau hyn yn ddigon cywir. Nid yw'r ysgol wedi gwella safonau yn gyson mewn llawer o ddangosyddion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu. Mae athrawon yn gweithio'n dda mewn grwpiau yn yr ysgol a gydag ysgolion eraill i ddatblygu dulliau newydd o addysgu a dysgu. Maent yn dechrau rhannu arfer dda mewn llythrennedd ar draws yr ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas weithio gryf gydag ystod eang o bartneriaid, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddarpariaeth a safonau. Mae'r cysylltiadau hyn yn effeithiol wrth hyrwyddo lles disgyblion a gwella eu profiadau dysgu.

Mae partneriaethau sefydledig gyda dwy ysgol uwchradd yng Nghaerffili a'r coleg lleol yn gryf. Mae'r cysylltiadau hyn yn ymestyn ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion, yn enwedig yn y chweched dosbarth. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd addas i fonitro darpariaeth a deilliannau.

Mae partneriaethau gydag ysgolion cynradd wedi eu datblygu'n dda. Mae disgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau a gwybodaeth sy'n helpu disgyblion i ymgynffwrdd yn eu hysgol newydd yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau cwricwlwm diweddar gydag ysgolion cynradd partner yn cynnig cymorth buddiol i fedrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig mewn darllen a llawysgrifen.

Mae cysylltiadau arbennig o gryf gyda'r gymuned. Caiff symiau sylweddol o arian eu codi ar gyfer elusennau. Mae'r ysgol yn creu nifer o gyfleoedd sy'n galluogi disgyblion a phobl hŷn i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau fel chwarae gwyddbwyll, syrffio'r rhyngwrdd a bwyta prydau gyda'i gilydd yn achlysurol. Mae cysylltiadau ag asiantaethau allanol a busnesau lleol yn cyfrannu'n helaeth at y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, a phrofiad o fyd gwaith.

Mae cysylltiadau cyson dda gyda rhieni. Cânt eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol ac am les a chynnydd eu plant.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i fodloni gofynion y cwricwlwm. Caiff aelodau o staff sy'n addysgu y tu allan i'w prif feysydd pwnc eu cefnogi'n dda. Mae pob aelod o staff cymorth a staff gweinyddol yn gwneud cyfraniadau gwerth chweil at fywyd yr ysgol.

Mae prosesau cynhwysfawr ar gyfer monitro cyllidebau yn sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â chynllunio ariannol yr ysgol. Mae'r broses ar gyfer dyrannu adnoddau yn dryloyw ac yn sicrhau bod pob maes yn cael ei ddyraniad dyledus.

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth gynnal gwarged priodol yn y gyllideb ac mae ganddi gynlluniau addas ar gyfer ei defnyddio. Mae'r ysgol yn defnyddio'i grantiau Effeithiolrwydd Ysgol ac Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol.

Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost effeithiol.

Er bod adnoddau'n cael eu rheoli'n fedrus, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian oherwydd bernir bod safonau'n ddigonol.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu, er bod y bwch wedi lleihau yn ddiweddar. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn golygu ei bod yn yr hanner uchaf am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. At hynny, o gymharu â disgwyliadau wedi'u modelu, mae'r dangosydd pwnc craidd ymhell uwchlaw disgwyliadau. Mewn Saesneg, mae perfformiad ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyson. Mae wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu erbyn hyn. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf, ac wedi cyd-fynd â chyfartaledd y teulu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ar y cyfan, er ei fod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn 2012. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf hefyd, ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu am y tro cyntaf mewn pedair blynedd erbyn hyn. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 ac yn uwch mewn gwyddoniaeth wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ond mae'n parhau i fod islaw cyfartaledd y teulu. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol ar gyfer 2012 gryn dipyn islaw disgwyliadau ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae islaw disgwyliadau mewn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn dilyn gostyngiad o 2008, bu cynnydd mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn 2012, ond mae'n parhau i fod yn is nag yr oedd yn 2008. Dros y cyfnod hwn, disgynnodd perfformiad islaw cyfartaledd y teulu, ond cododd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn 2012. Am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y mesur hwn wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn cyd-fynd yn fras â disgwyliadau wedi'u modelu. Mae'r dangosydd pwnc craidd yn dangos patrwm tebyg. Cododd perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn 2012, ond mae islaw cyfartaledd y teulu ac wedi bod yn y chwarter gwaelod am y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi aros yn isel dros y pedair blynedd diwethaf ar y cyfan, ac yn 2012, roedd islaw cyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 2 wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, er iddynt wella yn 2012. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y ddau fesur hyn wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim am y 3 blynedd diwethaf. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol

2 yn wan yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 3 yn dda yn y dangosydd pwnc craidd, ond yn wael yn nhrothwy lefel 2 a throthwy lefel 1.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster. Mae'r gyfran sy'n aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed islaw ffigurau cenedlaethol. Mae rhai disgyblion wedi gadael yr ysgol yn 16 oed a dywedir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r gyfran hon yn cyd-fynd â ffigurau lleol a chenedlaethol.

Yn y chweched dosbarth, mae myfyrwyr yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer trothwy lefel 3. Fodd bynnag, ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach, mae myfyrwyr yn perfformio islaw cyfartaledd Cymru. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd, er bod y bwlch yn llai na ffigurau'r teulu a ffigurau cenedlaethol. Mae patrwm tebyg yng nghyfnod allweddol 4 ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Nid yw hyn yn golygu bod y merched yn gwneud yn arbennig o dda gan fod eu perfformiad mewn lleiafrif o ddangosyddion, a Saesneg yn nodedig, islaw cyfartaledd y teulu. Yn y chweched dosbarth, mae bechgyn a merched yn cyflawni'n dda ar drothwy lefel 3, ac yn 2012, nid oedd unrhyw fwlch rhyngddynt. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn cyflawni'n well yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg na'r dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'r disgwyl.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi gwella'n gryf er 2008. Yn 2012, roedd deilliannau ar lefel pump ac uwchlaw hynny yn uwch na chyfartaledd y teulu, ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn Cymraeg.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Cafodd Estyn ymatebion gan 163 o ddisgyblion, a ddewiswyd ar hap ar draws yr amrediad oedran. Ymatebodd disgyblion yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i lawer o gwestiynau, ac roedd mwyafrif eu hatebion yn fwy cadarnhaol na'r atebion gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac maent yn nodi bod rhywun y gallant droi ato/ati os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer. Dywed mwyafrif ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith, er bod y gyfran hon yn is na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill. Dywed mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 y cawsant gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Yng nghyfnod allweddol 5, dywed y rhan fwyaf o fyfyrwyr y cawsant gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae llawer o ddisgyblion yn cadarnhau bod aelodau o'r staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Teimla mwyafrif o ddisgyblion fod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Dywed mwyafrif o ddisgyblion fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd Estyn 140 o ymatebion i'r holiadur i rieni.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ddiogel a'u bod yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n nodi y cafodd eu plant gymorth i ymgynefino'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn nodi bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau yn yr ysgol, er bod cyfran is na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â chysylltu â'r ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Mae bron pob o'r rhieni'n credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod addysgu yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'u plant. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bydd angen a bod llawer o staff yn trin eu plant yn deg ac yn eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu, ac mae llawer ohonynt yn nodi bod yr ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg a gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac yn dweud bod gwaith cartref yn atgyfnerthu dysgu. Mae llawer o rieni'n credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, er bod y gyfran hon yn is na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill. Dywed y rhan fwyaf o rieni eu bod yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Robert Davies	Arolygydd Cofnodol
Nigel Vaughan	Arolygydd Tîm
Gwyn Thomas	Arolygydd Tîm
Peter Harris	Arolygydd Tîm
Rhiannon Boardman	Arolygydd Lleyg
Susan Gwyer-Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Mr T Stancombe	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---